O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 430 (Cy.61)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llandarcy i Gwm-gwrach, Castell-nedd Port Talbot) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *17 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *1 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a chyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Llandarcy i Gwm-gwrach, Castell-nedd Port Talbot) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr *"*cerbyd esempt*" ("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 1 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

.